

Sut i ysgrifennu...

Adroddiad Gwyddonol

Defnyddir adroddiadau'n eang ar draws disgyblaethau prifysgol amrywiol, megis y gwyddorau, busnes, ac astudiaethau proffesiynol, gan eu bod yn ffordd pwerus i gyfleu gwybodaeth yn effeithiol.

Strwythur eich adroddiad

Pwysig!

Bydd fformat a rheolau eich adroddiad yn seiliedig ar yr hyn sydd ei angen ar eich adran neu bwnc. Gwiriwch ganllawiau eich adran neu gyfarwyddiadau aseiniad yn gyntaf.

Mae'r canlynol yn amlinellu strwythur safonol adroddiad gwyddonol:

1. Teitl

Crynowch eich gwaith mewn ymadrodd neu frawddeg syml.

2. Crynodeb

- Mae'r crynodeb yn grynodeb cyflym o'ch prosiect.
- Ynndo, rydych chi'n sôn pam y gwnaethoch chi'r gwaith, sut y gwnaethoch chi e, beth wnaethoch chi ddod o hyd iddo, a beth rydych chi'n meddwl mae'r cyfan yn ei olygu.
- Rydych chi hefyd yn cyffwrdd â'r prif bethau y gwnaethoch chi eu darganfod.
- Mae'n syniad da ysgrifennu'r rhan hon ar ôl i chi orffen popeth arall yn eich adroddiad.
- *Efallai na fydd angen hyn bob amser - gwiriwch gyfarwyddiadau'r aseiniad/gyda'ch tiwtor.*

3. Cyflwyniad

- Dyma lle rydych chi'n cyflwyno'ch adroddiad.
- Mae angen i chi egluro beth yw pwrpas eich adroddiad, beth rydych chi'n ceisio ei gyflawni, a beth rydych chi'n gobeithio ei ddarganfod.
- Efallai bod gennych chi ragdybiaeth yn lle nodau penodol.
- Dylech hefyd ddiffinio unrhyw dermau neu ddamcaniaethau pwysig y byddwch chi'n eu defnyddio fel bod darllenwyr yn gwybod am beth rydych chi'n siarad.
- A pheidiwch ag anghofio sôn am unrhyw gyfyngiadau i'ch ymchwil.

4. Dulliau/methodoleg

- Yn yr adran dulliau, byddwch yn rhoi manylion am sut y bu ichi gasglu'r data a'r dystiolaeth ar gyfer eich adroddiad, gan gynnwys pa offer a chyfarpar a ddefnyddiwyd.
- Byddwch hefyd yn esbonio pam y dewisoch y dull, cyfeirio at unrhyw faterion y daethoch i'r afael â hwy yn ystod eich ymchwil, ac yn trafod cyfyngiadau eich methodoleg.

5. Canlyniadau

- Os oes angen i chi rannu'ch adroddiad yn adrannau canlyniadau a thrafodaeth, gwnewch yn siŵr eich bod yn cadw'r adran canlyniadau yn syml trwy grynhoi'ch canfyddiadau yn unig.
- Cadwch y dadansoddiad manwl ar gyfer yr adran drafod.
- Gallwch gyflwyno'ch canlyniadau gan ddefnyddio graffiau, tablau neu ddiagramau i'w gwneud yn haws i'w deall.
- Trefnwch eich canlyniadau mewn trefn resymegol gyda theitlau clir a chrynodebau byr.
- Bydd hyn yn helpu'r darlennydd i ddeall yn hawdd yr hyn y mae'r delweddau'n ei ddangos.

6. Trafodaeth

- Yn y rhan hon rydych chi wir yn dadansoddi'r data a gasglwyd gennych a'ch canfyddiadau.
- Rydych chi'n dadansoddi'r hyn y mae'r canlyniadau'n ei olygu mewn perthynas â'r nodau a'r amcanion (neu ddamcaniaethau mewn adroddiad gwyddonol) y gwnaethoch chi ddechrau gyda nhw.
- Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n trefnu'ch meddyliau mewn ffordd resymegol.
- Amlinellwch y camau y credwch y dylid eu cymryd yn seiliedig ar yr hyn rydych wedi'i gwblhau.
- Sicrhewch fod y camau hyn yn glir ac yn benodol.

7. Casgliad

- Yma byddwch am gloi eich prif bwyntiau a chanfyddiadau heb gyflwyno unrhyw beth newydd.
- Rhowch drosolwg byr o'r hyn a drafodwyd gennych yn eich adroddiad, pam ei fod yn bwysig, ac unrhyw faterion allweddol a gododd yn ystod eich ymchwil.
- Gallwch hefyd awgrymu syniadau ar gyfer ymchwil yn y dyfodol neu ffyrdd o wella eich astudiaeth gyfredol.
- Clymwch bopeth gyda'i gilydd yn daclus cyn i chi orffen.

7. Llyfryddiaeth

- Yn rhestru'r holl ffynonellau y cyfeirir atynt yn eich adroddiad.
- Dilynwch arddull cyfeirnod eich Adran/llawlyfr eich modiwl.
- Cysylltwch â'ch [Llyfrgellydd Pwnc](#) am gyngor cyfeirnod.

